**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 9fed Rhagfyr 2025 yn Festri Troedyrhiw am 7.30pm.**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Haf Hughes (Cadeirydd) , Lynford Thomas, Dan Evans, Euros Davies, Melinda Williams, Glyn Davies, Alan Henson

1. **YMDDIHEURIADAU –** Y Cyng. Lyn Williams, Hywel Ifans, Wendy Lloyd Lewis, Gerwyn Owen.

2. PERSONOL – dim materion personol

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL**
   a. Rhoddion. Y Cyng. Euros Davies.

4. **CADARNHAU COFNODION 11/11/25**
   12 d. Cywirwyd enw'r Gyng. Gerwyn Davies i'r Cyng. Gerwyn Owen. Yn dilyn y newid, cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng.Glyn Davies a'u derbyn yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**
   **14e (Hydred) Golau Stryd Banc Villa.** Derbyniwyd ateb gan Simon Bray o'r Cyngor Sir yn nodi byddai cost gosod uned solar wrth yr Eglwys/Bank Villa tua £1500 - £2,000. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd nad oedd modd i'r Cyngor Cymuned gwrdd â'r gost yma.

   .

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR.** Nid oedd y Cyng. Ceris Jones yn bresennol yn y cyfarfod.

7. **ADRODDIAD YR HEDDLU –** Derbyniwyd adroddiad gan PC Liz Jenkins yn nodi'r data troseddu ar gyfer mis Tachwedd.

8. **CYLLID**

   i. Tâl y Clerc mis Tachwedd £228.73
   ii. Lloyds Banc Ffioedd : **10/10/25 – 09/09//25 £4.63**
   iii. Lloyds Banc Ffioedd Cyfrif y Cadeirydd **10/10/25 – 09/09/25** £**4.25**
   iv. BccIT – Cost anti-virus blynyddol £72.00 (£12 o TAW)
   v. Sianti – Plac Gwobr y Gymuned £35.00
   vi. **Cyllideb Ddrafft a Gosod Praesept:** Cyflwynwyd y gyllideb Ddrafft gan nodi rhai newidiadau yn sgil gwariant 2024-25. Yn dilyn trafodaeth gynhywsfawr penderfynwyd derbyn y gyllideb a chynnig am Praesept o £9950.00 ar gyfer 2026-27.
   vii. **Canlyniad yr Audit 2024-25 :** Derbyniwyd adroddiad yr Archwiliad gan Archwiliad Cymru a nodwyd : "nid oes unrhyw faterion wedi dod

i'm sylw i roi achos i bryderu, mewn unrhyw ffordd berthnasol, y wybodaeth a adroddwyd yn y Ffurflen Flynyddol**"**

**Materion ac argymhellion eraill:** **"**Tynnaf sylw'r Cyngor at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar fy marn archwilio ond y dylai'r Cyngor fynd i'r afael â nhw: Prosiectau cyfalaf Ni ddarparodd y Cyngor unrhyw wybodaeth mewn perthynas â phrosiectau cyfalaf. Rydym yn argymell bod y Cyngor yn adolygu'r hysbysiad archwilio blynyddol i sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei darparu yn amserol. Nid oes unrhyw faterion pellach yr hoffwn eu tynnu at sylw'r Cyngor**."**

**Yn dilyn trafodaeth, derbyniwyd yr Adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

viii. **RHODDION ELUSENNOL**

a. Kids Cancer Charity £25.00 (Lynford Thomas/Dan Evans)
b. Cae Chwarae Cribyn £100 (Glyn Davies/Lynford Thomas) Datganwyd diddordeb gan y Cyng. Euros Davies a chwblhawyd y ffurflen berthnasol.
c. Pwll Nofio Aberaeron £50.00 (Lynford Thomas/Dan Evans)
d. Ambiwlans Awyr Cymru £100 (Alan Henson/Melinda Williams)
e. Urdd Gobaith Cymru Ceredigion ££50.00 (Lynford Thomas/Euros Davies)
f. Urdd Gobaith Cymru – Cronfa Cyfle i Bawb £50.00 (Lynford Thomas/Glyn Davies

**9. CYNLLUNIO –** dim i'w drafod

**10. CYFARFOD Â'R CYNGOR SIR 27/11/25.**

Mynychwyd y cyfarfod gan Y Cyngh. Lynford Thomas a Glyn Davies. Cafwyd adroddiad gynhywsfawr gan Y Cyng. Lynford Thomas gan nodi'r pwyntiau canlynol o ddiddordeb; bod y flwyddyn ariannol nesaf yn mynd i fod yn galed fel arfer, y toriadau i nifer y Cynghorau a Chyngorwyr Cymuned yn 2027 gan nodi nad oes gan y Cyngor Sir lais yn y mater, ymchwiliad i ddigwydd am yr 20mya, y Cyngor o'r farn bod Clic erbyn hyn yn gweithio'n dda a chodwyd y cwestiwn a oes angen i'r cyfarfod blynyddol cael ei gynnal wyneb-yn-wyneb Yn dilyn trafodaeth dda am rai o'r pwyntiau a godwyd, diolchwyd i'r ddau Gynghorydd am fynychu'r cyfarfod.

**11. ADRODDIAD BIO-AMRYWIAETH 2025**

Dosbarthwyd yr adroddiad ac yn dilyn trafodaeth derbyniwyd yn unfrydol.

**12. CYFARFOD BLYNYDDOL UN LLAIS CYMRU 21/01/26 (ar-lein)**

Mi fydd y Clerc a'r Cyng. Lynford Thomas yn ymuno â'r cyfarfod hwn ar-lein

**13. GOHEBIAETH**

a. **Dweud Eich Dweud – Cyngor Sir Ceredigion.** Derbyniwyd llythyr yn gwahodd trigolion i gyfrannu at y sgwrs wrth baratoi Gyllideb y Cyngor. Rhannwyd y manylion cysylltu.
b. **Coeden Eglwys Felinfach –** Derbyniwyd nodyn hysbysu gan y Cyngor Sir yn cadarnhau bod angen gwneud cais i wneud unrhyw waith ar y

goeden uchod gan ei bod wedi ei chofrestru o dan Gorchymyn Cadwraeth Coed.

**14. UNRHYW FATER ARALL**

a. Ar gais y Cadeirydd, penderfynwyd ychwanegu trafodaeth am Gwobr y Gymuned i Agenda fis Chwefror.
b. Nododd y Cyng. Glyn Davies bod angen sylw i dwll cas yn yr hewl wrth Eglwyd Ystrad lle mae'r broblem dŵr yn parhau.
c. Derbyniwyd cŵyn gan un o drigolion Cysgoed y Gaer unwaith eto drwy'r Cyng. Alan Henson am y golau stryd.

**15. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

10fed Chwefror 2026 yn Neuadd Dihewyd.

Yn dilyn y cyfarfod, cyflwynwyd Gwobr y Gymuned 2025 i Eilir Evans a Chlwb Pêl Droed Felinfach.